WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Blwyddyn Archwiliad Mewnol 2009-10

Ionawr 2011

**Awdur: Patrick Spillane** **Cyf: 110A2011**

# Archwiliad Mewnol: Adolygiad o gyflawniad gwaith archwilio perfformiad lleol a drefnwyd ers 2005

**Mae'r ddogfen hon yn fersiwn derfynol y cytunwyd arni gyda'r Pwyllgor Gwaith**

Archwiliad Mewnol yw gwasanaeth arfarnu annibynnol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel gwasanaeth i reolwyr trwy fesur a gwerthuso effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Mae'n gwneud hynny trwy roi sicrwydd i'r Archwiliydd Cyffredinol bod y systemau rheoli mewnol yn ddigonol, effeithiol a dibynadwy. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynorthwyo rheolwyr trwy werthuso ac adrodd ar elfennau'r system rheoli mewnol y maent yn gyfrifol amdanynt.

Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n paratoi'r adroddiadau Archwilio Mewnol ac maent yn eu cyflwyno i swyddogion yn cynnwys y swyddog cyfrifyddu dynodedig a'u copïo i'r Pwyllgor Rheoli Archwiliad a Risg/Archwiliad Allanol. Cânt eu paratoi at ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru'n unig, ac felly ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw barti arall.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 3 |
| Adeg yr adroddiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu o achosion lle codwyd tâl am waith Swyddfa Archwilio Cymru ond na chyflawnwyd y gwaith | 4 |
| Nid ydym wedi nodi unrhyw dystiolaeth bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod incwm yn systematig heb gyflawni gwaith | 6 |
| Rydym wedi adolygu pob un o'r 640 o brosiectau sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau archwilio 11 o gyrff a archwiliwyd (a, lle'n briodol, eu wyth rhagflaenydd) rhwng 2005-06 a 2009-10. Ac eithrio un prosiect 10 diwrnod, daethom o hyd i dystiolaeth i gadarnhau bod pob prosiect ag allbwn adrodd wedi'i gyflawni, wedi'i amnewid am brosiect arall sydd wedi'i gyflawni, neu'n mynd i gael ei gyflawni | 7 |
| Rydym hefyd wedi adolygu gwaith cysoni 100 y cant tîm archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y cynlluniau archwilio o gymharu â'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r ymarfer hwn wedi cadarnhau ein casgliad nad yw incwm yn cael ei gydnabod yn systematig heb gyflawni gwaith. Fodd bynnag, mae yna le i wella llwybr rheoli newidiadau i'r cynlluniau | 11 |
| Mae ffioedd a anfonebir i gyrff a archwiliwr am waith heb ei gyflawni eto yn cael eu nodi'n gywir fel incwm gohiriedig yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn cytuno gyda chasgliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mai dim ond ar ôl i'r gwaith gael ei gyflawni y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried ffioedd archwilio fel incwm. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru £4.7 miliwn o incwm gohiriedig yng nghyfrifon 2009-10 | 14 |
| Argymhellion | 17 |
| **Atodiadau** | |
| Cynllun Gweithredu | 18 |
| Hysbysiad Corfforaethol 16, ymdrin ag amrywiadau i raglenni gwaith | 20 |

# Crynodeb

1. Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol Dros Dro i gynnwys yr adolygiad hwn o'r Archwiliad Mewnol yn y rhaglen arfaethedig o adolygiadau am 2010-11. Nod yr adolygiad oedd canolbwyntio ar y gwaith pontio rhwng y drefn flaenorol a'r drefn gyfredol ar gyfer gwaith archwilio perfformiad lleol, a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
2. Ym mis Chwefror 2010, tynnwyd sylw'r Archwilydd Cyffredinol Dros Dro at lythyr dienw a oedd yn honni bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod incwm am waith nad oedd wedi'i gyflawni. O ganlyniad, ehangwyd yr adolygiad hwn o'r Archwiliad Mewnol i gynnwys gwaith perfformiad lleol yng nghyrff y GIG ac mewn awdurdodau lleol1. Cafodd y gwaith hefyd ei ymestyn i gwmpasu gwaith perfformiad lleol o greu Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005.
3. Ym mis Tachwedd 2010, adroddodd papur newydd y Western Mail am honiadau dienw gan bedwar aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru, ac un cyn-aelod o staff, bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod incwm am waith nad oedd wedi'i gyflawni a, thros y blynyddoedd, ei bod wedi derbyn gwerth miliynau o bunnoedd o incwm ffioedd am waith na chafodd ei gyflawni. Cafodd gwaith i archwilio'r honiadau hynny hefyd ei gynnwys yn yr adolygiad hwn.
4. Roedd yr adolygiad o'r Archwiliad Mewnol yn canolbwyntio ar brosiectau archwilio perfformiad lleol y telir amdanynt gan gyrff a archwilir yn eu ffioedd archwilio blynyddol. Nid yw'r adolygiad yn cwmpasu gwaith archwilio datganiadau ariannol, a delir hefyd trwy ffioedd, a gyflawnir yn flynyddol i ddarparu Barn Archwilio am gyfrifon y corff a archwiliwyd. Caiff y prosiectau hyn eu darparu o fewn amserlenni statudol, a chânt eu hadrodd mewn llythyrau archwilio blynyddol. O ganlyniad, nid oes yna brosiectau'n ymwneud ag archwilio datganiadau ariannol heb eu cyflawni ar ôl i'r archwiliad 'gau' bob blwyddyn.
5. Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn: **Ydy Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod incwm yn systematig heb gyflawni'r gwaith archwilio perfformiad lleol?**
6. Yr ateb i'r cwestiwn yw: Adeg yr adroddiad hwn, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu i'r Archwiliad Mewnol o achosion lle mae tâl wedi'i godi am waith Swyddfa Archwilio Cymru er na chafodd y gwaith ei gyflawni; ac nid ydym wedi nodi tystiolaeth bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod incwm heb gyflawni gwaith. Fodd bynnag, rydym wedi gweld bod lle i wella llwybr rheoli newidiadau i gynlluniau a drefnwyd mewn gwaith perfformiad lleol.

---

[1] Y cyrff wedi'u harchwilio sy'n amodol ar y Mesur Llywodraeth Leol yw awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

## Adolygiadau cysylltiedig eraill

7. O ystyried difrifoldeb yr honiadau dienw, gofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd i'r Partner Rheoli, Archwilio Perfformiad, ymestyn yr adolygiad o'r Archwiliad Mewnol a gwneud gwaith cysoni 100 y cant ar brosiectau perfformiad lleol a drefnwyd ers sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005, o gymharu â'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r adolygiad hwn o'r Archwiliad Mewnol wedi adolygu'r gwaith cysoni hwn i gadarnhau canlyniadau'r gwaith hwnnw.

8. Hefyd, comisiynodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd adolygiad o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2005-06 a 2009-10 gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, a gynhaliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Darparodd yr Archwiliad Mewnol fynediad llawn i'w ffeiliau a chymorth i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'w helpu i adolygu cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, a'r honiadau diweddarach yn y papurau newydd. Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn gwneud sylwadau ar ddibynadwyedd a chywirdeb y gwaith archwilio mewnol hwn (paragraff 1.35 yn yr adroddiad) a all fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr yr adroddiad hwn.

# Adeg yr adroddiad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu o achosion lle codwyd tâl am waith Swyddfa Archwilio Cymru ond na chyflawnwyd y gwaith

9. Mae cyhuddiadau dienw'r papur newydd yn honni bod Swyddfa Archwilio Cymru, dros y blynyddoedd, wedi derbyn gwerth miliynau o bunnoedd o incwm ffioedd am waith na chafodd ei gyflawni. Mae'r honiadau'n cael eu disgrifio'n eang ac maent yn galw ar Swyddfa Archwilio Cymru i brofi nad yw wedi gwneud yr hyn a honnir. Weithiau, cyfeirir at y math hwn o gwestiwn fel 'profi'r gwrthwyneb', gwaith anodd sy'n cymryd llawer o amser. Beth bynnag y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei wneud i gadarnhau nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad, gall y sawl sy'n cyflwyno'r honiad hawlio y gellir profi'r honiadau pe bai gwaith mwy manwl neu gynhwysfawr yn cael ei gyflawni.

10. I oresgyn y diffyg tystiolaeth i gefnogi'r honiadau, mae'r Archwilydd Cyffredinol ac eraill wedi rhoi digon o gyfle i staff a chyn-aelodau staff gyflwyno neu ddarparu gwybodaeth:

    - Rhoddodd adolygiad diwydrwydd dyladwy Swyddfa Archwilio Cymru o ymddygiad y cyn Archwilydd Cyffredinol yn ystod ei amser yn y swydd gyfle i bob aelod o staff ddarparu'n gyfrinachol unrhyw dystiolaeth o bryderon ynglŷn â sut yr oedd y cyn Archwilydd Cyffredinol yn rheoli Swyddfa Archwilio Cymru. Er, mynegodd yr undebau llafur bryder bod Mr Colman wedi hyrwyddo neu gefnogi'n ddistaw arfer Swyddfa Archwilio Cymru o gydnabod incwm yn eu cyfrifon lle nad oedd ganddi hawl i wneud hynny ond ni ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn.
    - Wrth gyhoeddi adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, gwahoddodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd staff i gysylltu'n gyfrinachol ag adolygwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, os oedd ganddynt unrhyw bryderon.

- Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd hefyd at staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig amnest i unrhyw un a oedd wedi cysylltu â'r papur newydd pe bai'n mynegi ei bryderon iddo ef erbyn 26 Tachwedd 2010.
- Yn ogystal, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd at gyn-aelodau staff uwch Swyddfa Archwilio Cymru a oedd wedi ymddeol erbyn hyn yn gofyn a oedd ganddynt unrhyw wybodaeth berthnasol y gallent ei darparu.
- Hefyd, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd at Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn iddo anfon copïau o'r datganiadau dienw, a gafodd gan y papur newydd, yn gyfrinachol at dîm adolygu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymatebodd y Llywydd yn gadarnhaol i'r cais hwn.
- Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan Aelod o'r Cynulliad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 9 Rhagfyr 2010, gofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd i unrhyw Aelod o'r Cynulliad oedd â thystiolaeth i gefnogi'r honiadau dienw ddarparu'r dystiolaeth honno iddo. Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth.
- Ar 16 Rhagfyr 2010, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at bob Aelod o'r Cynulliad yn gofyn i unrhyw un oedd â thystiolaeth i gefnogi'r honiadau dienw ddarparu'r dystiolaeth honno i Glerc y Pwyllgor. Unwaith eto, ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth.

11. Er gwaethaf yr holl ymdrechion a amlinellir uchod, ar 10 Ionawr 2011 (adeg llunio'r adroddiad hwn), nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i darparu i'r Archwiliad Mewnol a oedd yn cefnogi'r honiadau a wnaed yn erbyn Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi datgan a wnaeth unrhyw aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru gysylltu ag ef gan gydymffurfio â gofynion cyfrinachedd, ond mae wedi cadarnhau bod yr unig dystiolaeth go iawn a ddarparwyd iddo yn ymwneud â chyfnod cyn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, nododd un person di-enw gorff archwilio penodol ac fe wnaethom yn siŵr ein bod yn cynnwys y corff hwn yn ein sampl o gyrff i'w harchwilio.
12. Mae adolygwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd wedi parchu cyfrinachedd hefyd o ran a wnaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru gysylltu â nhw ai peidio, ac mewn perthynas â'r datganiadau o honiadau dienw a ddarparwyd iddynt gan y Llywydd. Fodd bynnag, mae adolygwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cadarnhau er eu bod wedi derbyn honiadau, nad ydynt wedi derbyn unrhyw dystiolaeth a fyddai'n eu hannog i ymchwilio i'r honiadau y tu hwnt i'r hyn a adroddir yn eu hadroddiad ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru.
13. Mae adolygwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cadarnhau bod system cydnabod incwm Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â safonau cyfrifyddu ac yn addas i'r diben (paragraff 20 o'u hadroddiad). Mae'r adolygwyr hefyd wedi adolygu a chadarnhau eu hyder ym methodoleg yr Archwiliad Mewnol a'i ddull o gynnal yr ymchwiliad fel y nodir yma.

14. Er gwaethaf yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried unrhyw honiadau sy'n effeithio ar enw da Swyddfa Archwilio Cymru o ddifrif. I ymchwilio i'r honiadau dienw nad oes unrhyw dystiolaeth i'w cefnogi, rydym wedi gorfod edrych ar y mater o safbwynt beth fyddai'r goblygiadau pe bai'r honiadau'n wir h.y.

- Mae'r cyfansymiau sy'n rhan o'r honiad yn sylweddol h.y. £miliynau y flwyddyn.
- Er mwyn i symiau o'r maint hwn fod yn berthnasol, fel yr honnir yn rhai o'r honiadau, byddai angen i'r mater effeithio ar bob archwiliad yng Nghymru h.y. 22 awdurdod lleol; tri awdurdod tân ac achub; tri parc cenedlaethol; pedwar awdurdod heddlu; saith Bwrdd Iechyd Lleol (a'u holl ragflaenwyr); a thair ymddiriedolaeth y GIG.
- Byddai maint yr honiadau (£ miliynau) yn dod i o leiaf 15 y cant o gyfanswm ffi yr incwm a gafodd ei hawlio ar gam gan bob corff wedi'i archwilio bob blwyddyn rhwng 2005 a 2010.
- Pe bai pob archwiliad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u heffeithio, byddai llawer o aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn rhan o'r gweithgaredauu honedig. Rydym yn nodi bod yr holl bartneriaid ymgysylltu perfformiad wedi cadarnhau'n bersonol i'r Archwilydd Cyffredinol nad ydynt erioed wedi cael cais neu eu gorfodi i wneud unrhyw un o'r arferion a nodwyd yn yr honiadau.

15. Mae'r honiadau hefyd yn awgrymu nad yw unrhyw un o'r cyrff a archwiliwyd wedi sylwi ar ddiffyg cyflawniad prosiectau dros y pum mlynedd blaenorol. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfarfod â phwyllgorau archwilio (neu gyrff cyfwerth), prif weithredwyr, swyddogion cyllid a swyddogion perfformiad cyrff archwilio i drafod y cynllun archwilio, cyflawniad prosiectau, allbwn prosiectau a'r gwaith o adrodd ar ganlyniadau prosiectau. Mae trafodaethau rhwng staff cyrff wedi'u harchwilio a Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â ffioedd archwilio a chyflawni gwaith yn drylwyr iawn fel arfer. Nid ydym yn ymwybodol o achosion lle cafodd materion cyflawni a nodwyd gan gyrff wedi'u harchwilio eu gadael heb eu datrys gan archwilwyr. Nid yw'r systemau cwynion a gohebiaeth wedi derbyn unrhyw gwynion na gohebiaeth gan gyrff wedi'u harchwilio na'u cyrff cynrychioli ynglŷn â methiant i gyflawni prosiectau.

## Nid ydym wedi nodi unrhyw dystiolaeth bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod incwm yn systematig heb gyflawni gwaith

16. Mae ein casgliad cyffredinol yn seiliedig ar y canlynol:

## Rydym wedi adolygu pob un o'r 640 o brosiectau sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau archwilio 11 o'r cyrff a archwiliwyd (a, lle'n briodol, eu wyth rhagflaenydd) rhwng 2005-06 a 2009-10. Ac eithrio un prosiect bach oedd yn llai na 10 diwrnod, daethom o hyd i dystiolaeth i gadarnhau bod pob prosiect ag allbwn adrodd wedi'i gyflawni, wedi'i amnewid am brosiect arall sydd wedi'i gyflawni, neu'n mynd i gael ei gyflawni

17. Defnyddiwyd y broses i olrhain prosiectau a drefnwyd a ddiffiniwyd yn y cynlluniau a strategaethau archwilio rhwng 2005-06 a 2009-10, i'r allbynnau a gyflawnwyd. Ni adolygwyd prosiectau 2010-11 gan eu bod wrthi'n cael eu cwblhau ac, mewn llywodraeth leol, mae'r gwaith perfformiad lleol bellach yn cael ei gynnwys yn swyddogol yng ngwaith y Mesur Llywodraeth Leol newydd. Ar y cyfan, roedd yr allbynnau a gyflawnwyd o brosiectau ar ffurf adroddiad archwilio, er y gallai'r allbwn gael ei adrodd hefyd i'r corff a archwiliwyd trwy'r llythyr archwilio blynyddol (ar gyfer cyrff y GIG) a llythyr y rheolwr cydberthnasau (ar gyfer awdurdodau lleol).

18. Roedd ein hadolygiad yn cwmpasu cyfanswm o 640 o brosiectau mewn sampl o 11 o gyrff wedi'u harchwilio (ac yn achos cyrff y GIG, yn cynnwys eu wyth rhagflaenydd, fel y nodir yn y tabl isod. Roedd ein adolygiad yn canolbwyntio'n unig ar y prosiectau a gyflawnwyd gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ac eithrio archwiliadau a gwblhawyd gan gwmnïau o gyfrifyddion (gweler paragraff 20):

| Enw'r corff a archwiliwyd (a rhagflaenwyr) | Nifer y prosiectau rhwng 2005-06 a 2009-10 |
|---|---|
| Cyngor Caerdydd | 70 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 52 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 60 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 39 |
| Cyngor Gwynedd | 74 |
| Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | 22 |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 29 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 20 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Ymddiriedolaeth GIG Abertawe<br>Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg<br>Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot | 99 |
| Bwrdd Iechyd Cwm Taf<br>Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg<br>Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf | 74 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro<br>Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd<br>Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg | 101 |

19. Roedd y sampl hwn yn cynrychioli pump o'r 13 awdurdod unedol, tri o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol, un o'r tri parc cenedlaethol, un o'r pedwar awdurdod heddlu ac un o'r tri awdurdod tân a archwiliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

20. Ni aethom ati i adolygu archwiliadau a gynhaliwyd gan gwmnïau o gyfrifyddion (a drefnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol) yn hytrach na Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, roedd y sampl o gyrff a archwiliwyd yn cynnwys y rhai a oedd wedi symud rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau, a chyrff sydd wedi'u had-drefnu. Roedd y sampl yn cwmpasu llywodraeth leol a chyrff y GIG, amrywiaeth o bartneriaid ymgysylltu, rheolwyr prosiectau a swyddi eraill yn Swyddfa Archwilio Cymru.

21. Roedd hi'n gymharol hawdd cael tystiolaeth i ddangos bod prosiectau wedi'u cwblhau yn y rhan fwyaf o achosion, trwy weld yr adroddiad cysylltiedig neu'r negeseuon allweddol o'r adroddiad a oedd wedi'u crynhoi yn y llythyr archwilio blynyddol (ar gyfer cyrff y GIG) a llythyr y rheolwr cydberthnasau (ar gyfer awdurdodau lleol).

22. Roedd rhai prosiectau perfformiad lleol yn bwriadu darparu allbwn heblaw adroddiad, fel:

- cyflwyniad PowerPoint;
- gweithdy wedi'i hwyluso;
- presenoldeb mewn cyfarfod(ydd); neu
- gwaith parhaus o fonitro archwiliad o fater i ddarparu sicrwydd i'r gwaith o archwilio datganiadau ariannol neu i bennu a ellir cyfiawnhau archwiliad pellach.

23. Mewn achosion o'r fath, aethom ati i geisio cael gwahanol fathau o gadarnhad sy'n briodol i ddilysu'r gwahanol fathau o allbwn. Roedd hyn yn cynnwys gweld sleidiau'r cyflwyniad, negeseuon e-bost gan y corff a archwiliwyd neu gadarnhad gan y staff dan sylw bod gwaith monitro parhaus wedi'i gyflawni.

24. Mae yna hefyd brosiectau sy'n ychwanegu gwerth ond nad ydynt yn arwain at allbwn diriaethol fel adroddiad neu gyflwyniad. Mae'r allbynnau anniriaethol hyn yn cynnwys: cymorth a her i staff y corff a archwilir mewn cyfarfodydd un-i-un a rheoli cysylltiadau ar draws meysydd gwaith a/neu arolygiaethau. Mae ymgysylltu â chyrff arolygu'n bwysig iawn ac yn cael ei hyrwyddo gan archwilwyr a chyrff sy'n cael eu harchwilio. Mae archwilwyr a chyrff arolygu'n cael eu hannog i gydgysylltu eu gweithgareddau ac i gael sicrwydd o waith ei gilydd. Trwy wneud hynny, a thrwy ganolbwyntio ar risgiau cyfredol, mae archwilwyr yn gallu lleihau unrhyw orgyffwrdd posibl a'r pwysau ar adnoddau mewn cyrff sy'n cael eu harchwilio. Mae'r holl waith rheoli perthynas dilys hwn yn cymryd amser, ond nid yw'n arwain at 'adroddiad' fel arfer.

25. Mae Arweinwyr Asesu Gwelliant (IALs) a Chydgysylltwyr Asesu Gwelliant (IACs) Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am ddarparu'r asesiadau corfforaethol a'r asesiadau perfformiad mewn grŵp o awdurdodau lleol. Disodlodd y swyddi hyn Reolwyr Cydberthnasau (RMs) a Rheolwyr Prosiect Perfformiad (PPMs) blaenorol mewn cyrff llywodraeth leol yn ystod 2009-10 ac fe newidiodd llawer o'r staff. Ym maes perfformiad y Partneriaid Rheoli, mae gan un Partner Ymgysylltu Perfformiad gyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu gwaith y Mesur Llywodraeth Leol (asesiadau corfforaethol ac asesiadau perfformiad). Mae'r partner hwnnw a phartner arall yn goruchwylio'r broses o gyflawni gwaith y Mesur. Mae'r Partneriaid a'r IALs/IACs yn darparu'r cynlluniau a'r llythyrau/adroddiadau blynyddol, yn ogystal â sicrhau bod y gorgyffwrdd rhwng trefniadau archwilio ac arolygu'n cael ei leihau. Mae gwaith yn canolbwyntio ar faterion allweddol ac yn cael ei gydgysylltu i leihau'r adnoddau sy'n ofynnol gan gyrff a a archwilir.

26. Gall y llwybr rheoli sy'n gysylltiedig â rheoli gwaith perfformiad fod yn gymhleth. Mewn unrhyw flwyddyn, gall cynlluniau archwilio newid am reswm da, er enghraifft os bydd risgiau newydd yn codi a fydd yn gofyn am waith archwilio perfformiad newydd; bod datblygiadau yn y corff a archwiliwyd yn arwain at yr angen i ohirio adolygiad o archwiliad unigol; neu i sicrhau bod gan Swyddfa Archwilio Cymru yr adnoddau angenrheidiol. Wrth archwilio prosiectau o flynyddoedd cynnar Swyddfa Archwilio Cymru, daethom o hyd i nifer sylweddol o brosiectau gohiriedig ac roedd llawer o adroddiadau wedi'u cwblhau yn y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn pan drefnwyd y gwaith. O ganlyniad, aeth yr adolygiad o'r Archwiliad Mewnol ati i olrhain newidiadau i gynlluniau a'r gwaith o gyflawni prosiectau a oedd wedi'u gohirio i flwyddyn ddilynol.

27. Dyma'r dogfennau a ddefnyddiwyd i wirio cyflawniad y gwaith a newidiadau i waith a drefnwyd:

- y calendr rheoleiddio (ar gyfer cyrff llywodraeth leol);
- y diweddariadau archwilio rheolaidd a ddarperir i bwyllgorau archwilio (ar gyfer cyrff y GIG);
- ffurflenni ffioedd (ar gyfer cyrff y GIG a llywodraeth leol); ac
- adroddiadau a gwblhawyd (ar gyfer cyrff y GIG a llywodraeth leol).

28. Mewn llywodraeth leol, mae calendrau rheoleiddio yn dangos teitl gwirioneddol y prosiect i'w gyflawni a fformat yr allbwn, sef naill ai adroddiad neu allbwn ar ffurf arall. Nid yw calendrau rheoleiddio yn cynnwys esboniadau i gyd-fynd â newidiadau e.e. amnewid neu ad-drefnu. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod calendrau rheoleiddio bob chwarter gyda'r corff a archwilir.

29. Ym maes iechyd, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru 'adroddiadau etifeddiaeth' tua diwedd 2009 a oedd yn crynhoi'r negeseuon allweddol o'r holl waith archwilio diweddar yn y cymunedau iechyd sy'n ffurfio'r BILlau newydd (a sefydlwyd ym mis Hydref 2009). Mae'r archwiliad yn diweddaru papurau ar gyfer pwyllgorau archwilio lleol sy'n darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd gwaith perfformiad a nodwyd yn y strategaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

30. Lle bo angen, rydym hefyd wedi adolygu ‘ffurflenni ffioedd’, dogfen gynllunio mewnol sy’n neilltuo adnoddau a ffioedd archwilio cysylltiedig i brosiectau unigol. Mae’r ffurflenni ffioedd yn sbarduno’r gwaith bilio incwm ar gyfer gwaith gan Adran Gyllid Swyddfa Archwilio Cymru. Mae rhai o’r ffurflenni ffioedd yn darparu rhagor o fanylion sy’n sail i’r cynlluniau archwilio a gyflwynir i’r cyrff a archwilir. Er enghraifft, mae rhai ffurflenni ffioedd wedi dangos tystiolaeth bod amser wedi’i gario drosodd o flwyddyn flaenorol i ddarparu adnoddau i brosiect newydd. Rydym wedi adolygu’r ffurflenni ffioedd i wirio lle cyflwynwyd newidiadau i gynlluniau archwilio; nid ydym wedi archwilio pob atodlen ffioedd a’u cysoni’n llawn â phrosiectau a drefnwyd. Byddai gwneud hynny’n arwain at waith ychwanegol sylweddol sy’n gofyn am lawer iawn o adnoddau.

31. Nid ydym wedi dod o hyd i lwybr rheoli cyson ac effeithiol sy’n cysoni prosiectau gwreiddiol a drefnwyd o 2005-06 ymlaen yn erbyn prosiectau sydd wedi’u darparu a phrosiectau sy’n weddill. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nad oes unrhyw gwynion na gohebiaeth wedi’u derbyn gan gyrff a archwiliwyd na’u cyrff cynrychioli ynglŷn â methu cyflawni prosiectau.

32. Wrth edrych ar brosiectau a drefnwyd ac a gyflawnwyd yn nyddiau cynnar Swyddfa Archwilio Cymru, cafodd ein gwaith cysoni ei effeithio gan gyfuniad o:

- diffyg llwybr rheoli cyson ar gyfer awdurdodi a chofnodi newidiadau i brosiectau a drefnwyd;
- newidiadau i staff Swyddfa Archwilio Cymru sy’n gyfrifol am reoli prosiectau;
- newidiadau i drefniadau rheoli ffeiliau gyda system rheoli ffeiliau SharePoint newydd yn cael ei chyflwyno ddwy flynedd wedi sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru; a
- newidiadau strwythurol i’r cyrff a archwiliwyd.

33. O ganlyniad, roedd yna well llwybr rheoli ar gyfer prosiectau perfformiad y blynyddoedd mwy diweddar. Er hynny, bydd angen gweithredu’r llwybr rheoli i esbonio newidiadau i waith yn gyson a bydd rhaid iddo fod yn gyson gadarn hefyd.

34. Mewn rhai achosion, negeseuon e-bost mewnol Swyddfa Archwilio Cymru oedd yr unig lwybr rheoli oedd ar gael ar gyfer rhai trefniadau amnewid prosiectau neu i ddarparu dadansoddiad manwl o’r prosiectau a drefnwyd. Dangosodd rhai negeseuon e-bost bod y negeseuon wedi’u hanfon at swyddogion y corff a archwiliwyd, a bod eraill yn nodi’r trafodaethau yr oedd staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi’u cael gyda swyddogion y corff a archwiliwyd, a oedd yn sail i ddiweddaru calendrau rheoleiddio. Gwelwyd nad yw newidiadau i gynlluniau bob amser yn cael eu cofnodi, felly roedd y llwybr weithiau’n anghyflawn, yn enwedig pan fo staff wedi gadael Swyddfa Archwilio Cymru neu lle mae tystiolaeth seiliedig ar wybodaeth bersonol wedi’i cholli (e.e. lle mae negeseuon e-bost wedi’u dileu).

35. Mewn rhai cyrff wedi'u harchwilio (yn bennaf yn ystod 2005-06 a 2006-07), cafodd anawsterau o ran cytuno ar gynllun manwl llawn ar ddechrau'r flwyddyn eu datrys trwy gynnwys 'datganiadau gohirio' mewn strategaethau neu gynlluniau archwilio, fel 'cytunir ar astudiaeth arolygu perfformiad pellach gyda'r Cyngor yn ystod y flwyddyn'. Fel uchod, nid ydym wedi dod o hyd i lwybr rheoli cyson a chadarn ar gyfer cofnodi newidiadau ac rydym wedi canfod nad oes yna ddull safonol o awdurdodi neu gofnodi'r gwaith o amnewid prosiectau.

36. Er gwaethaf y gwendidau a nodwyd yn y llwybr rheoli, o'r sampl o 640 o brosiectau perfformiad lleol, nodwyd un prosiect 10 diwrnod, lle cytunwyd ar y pryd ac ar ôl cynllunio'r prosiect na fyddai'r prosiect yn cael ei gyflawni. Efallai bod yr 8.5 diwrnod arall a neilltuwyd ar gyfer y prosiect hwn wedi'u defnyddio ar brosiect arall, ond nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth i ddangos y trosglwyddiad amser. Yn dilyn trafodaeth gyda rheolwyr Swyddfa Archwilio Cymru, rydym yn deall y darperir ad-daliad o £5,000 i'r awdurdod.

| Y prosiect heb ei gysoni |
|---|
| Nododd Archwiliad Mewnol brosiect yng nghynllun 2005-06 ar gyfer awdurdod heddlu na chafodd ei adrodd mewn unrhyw lythyr blynyddol rhwng 2005 a 2010. Nododd yr atodlen ffioedd bod 10 diwrnod wedi'i neilltuo ar gyfer y prosiect.<br>Adolygodd rheolwr prosiect y corff a archwiliwyd yr holl gofnodion a nododd nad oedd unrhyw adroddiad wedi'i gynhyrchu ond bod trafodaethau cwmpasu cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r corff a archwiliwyd.<br>Nododd adolygiad yr Archwiliad Mewnol o ffeiliau archwilio ariannol TeamMate fod un arbenigwr perfformiad wedi cyfarfod gyda'r corff a archwiliwyd a chytuno bod digwyddiadau cenedlaethol wedi golygu bod angen dileu'r adolygiad a bod y prosiect i gael ei ddiddymu. Roedd staff Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn bod yr 8.5 diwrnod arall wedi'u hail-neilltuo i wahanol brosiectau.<br>Nid ydym wedi gallu cael gafael ar gofnodion o drosglwyddo'r 8.5 diwrnod i brosiect gwahanol. |

## Rydym hefyd wedi adolygu gwaith cysoni 100 y cant Tîm Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymruar y cynlluniau archwilio o gymharu â'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r ymarfer hwn wedi cadarnhau ein casgliad nad yw incwm yn cael ei gydnabod yn systematig heb gyflawni gwaith. Fodd bynnag, mae yna le i wella llwybr rheoli newidiadau i'r cynlluniau

37. Mae cyfanswm y prosiectau rydym wedi cydnabod eu bod yn cynnwys y 'boblogaeth' ar gyfer adolygiad yn dod i 2,490.

38. Rydym wedi adolygu gwaith cysoni 100 y cant y tîm archwilio perfformiad ar 1,336 o brosiectau cyrff a archwiliwyd rhwng 2005-06 a 2009-10. Mae hyn, ynghyd â:

- 640 o brosiectau rhwng 2005-06 a 2009-10 a adolygwyd gan Archwiliad Mewnol; a
- 514 o gynlluniau a llythyrau blynyddol cysylltiedig rhwng 2005-06 a 2009-10

yn dod i gyfanswm o 2,490 o brosiectau.

39. Ni chafodd y prosiectau y bwriadwyd eu darparu yn 2010-11 eu hadolygu gan yr Archwiliad Mewnol na'r tîm archwilio perfformiad gan eu bod wrthi'n cael eu cwblhau ac, mewn llywodraeth leol, mae'r holl waith perfformiad lleol nawr yn cael ei gynnwys yn swyddogol yn yr un prosiect Mesur Llywodraeth Leol a geir i bob corff a archwilir.

40. Cafodd y penderfyniad i drosglwyddo amser o brosiectau perfformiad lleol i waith asesiad corfforaethol ei awdurdodi gan y cyn Archwilydd Cyffredinol yn 'Nodyn Briffio Mesur Llywodraeth Leol rhif 5' dyddiedig 27 Ionawr 2010 a gyflwynwyd i holl aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd y nodyn briffio:

'***Mae gwaith perfformiad llywodraeth leol yn cael ei gynnwys yn llwyr yn yr asesiadau gwella bellach***

*Mae holl waith perfformiad lleol yn cael ei gynnwys yn swyddogol yn yr Asesiad Gwella bellach. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am unrhyw oblygiadau y bydd hyn yn ei gael ar staff yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd IALs yn parhau i fod yn gyfrifol am gadarnhau cwblhad unrhyw gynhyrchion perfformiad sydd heb eu cyflawni. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y broses ar gyfer clirio a chyhoeddi unrhyw adroddiadau perfformiad awdurdod lleol sy'n weddill, cysylltwch â'r IAC perthnasol.'*

41. Cafodd cynnydd ar y prosiectau sy'n weddill a throsglwyddo amser o brosiectau perfformiad lleol i waith asesiad corfforaethol ei adrodd yn 'Nodyn Briffio Mesur Llywodraeth Leol rhif 6' dyddiedig 15 Ebrill 2010 a gyflwynwyd i holl aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd y nodyn briffio:

***'Gwaith wedi ôl-gronni***

*Rydym wedi datrys y mwyafrif llethol o'r gwaith oedd wedi ôl-gronni, gan gyflawni nifer o adroddiadau terfynol ar fater penodol. Lle'n briodol rydym wedi dwyn y gwaith ymlaen i ran berthnasol yr Asesiad Gwella. Mae IALs ac IACs yn hysbysu Prif Weithredwyr am unrhyw newidiadau ac yn cynnwys y newidiadau hynny yn y Cynllun Gwaith a'r Amserlen. Yn fewnol, rydym yn cynnal gwiriad manwl o'r holl waith a nodwyd nad yw wedi'i gyflawni, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn iawn.'*

42. Dilynodd yr adolygiad o berfformiad yr un broses â'r adolygiad o'r Archwiliad Mewnol, a defnyddiodd adnoddau sylweddol a oedd yn gofyn am wybodaeth a gedwir yn lleol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys yr holl brosiectau perfformiad ers Ebrill 2005, gan gynnwys rhai o brosiectau 2004-05. Ni chafodd prosiectau 2004-05 eu cynnwys yng nghwmpas yr adolygiad hwn o'r Archwiliad Mewnol. Darparwyd y daenlen sy'n cynnwys data gwreiddiol yr adolygiad i'r Archwiliad Mewnol ac roedd yn cynnwys cyfeirnod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i alluogi gwirio clir, neu wybodaeth arall fel 'wedi'i grynhoi yn y llythyr archwilio blynyddol'.

43. Aethom ati i samplu un o bob pedwar prosiect ym mhob corff a archwiliwyd h.y. tua 350 o'r 1,336 o brosiectau a oedd yn rhan o'r gwaith cysoni 100 y cant. Nododd ein hadolygiad y canlynol:

- 15 o brosiectau nad oedd ganddynt ddata digonol i alluogi cysoni cychwynnol ond a lwyddodd yr Archwiliad Mewnol i'w cysoni trwy ymchwiliad pellach.
- Bod 10 o brosiectau'n dal i fod yn destun ymchwiliad gan staff perfformiad (yn ogystal â'r un a nodir ym mharagraff 36 uchod). Argymhellir camau gweithredu pellach gan yr Archwiliad Mewnol yn y Cynllun Gweithredu.

44. Nid ydym wedi gallu cysoni 11 o brosiectau sy'n dod i gyfanswm o 86 diwrnod, o gyfanswm o filoedd o ddiwrnodau.

45. Mae canlyniad gwaith cysoni 100 y cant y tîm perfformiad wedi cadarnhau ein casgliad nad yw incwm yn cael ei gydnabod yn systematig heb gyflawni gwaith. Fodd bynnag, mae adolygiad y tîm perfformiad hefyd wedi cadarnhau ein canfyddiadau bod yna le i wella llwybr rheoli newidiadau i gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

46. Hefyd, darparodd y tîm archwilio perfformiad restr i'r Archwiliad Mewnol o 74 o brosiectau (y rhestr), sef yr unig brosiectau a oedd dal heb eu cyflawni ar 31 Mawrth 2010 ar gyfer pob awdurdod lleol. Bydd yr holl brosiectau hyn naill ai'n cael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2011 neu eu cynnwys yng ngwaith y Mesur Llywodraeth Leol gan fod yr holl waith prosiect lleol wedi'i gynnwys yng ngwaith y Mesur Llywodraeth Leol. Roedd IALs, IACs, RMs a PPMs wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddarparu gwybodaeth i lenwi'r rhestr hon. Mae'r rhestr yn nodi'r awdurdod lleol, teitl y prosiect ac a oedd y prosiect: i'w gwblhau gydag adroddiad, i'w gwblhau a'i adrodd yn yr asesiad corfforaethol neu i'w ddiddymu a'r amser a neilltuwyd ar ei gyfer i'w drosglwyddo i gyflawni'r asesiad corfforaethol.

47. I helpu i glirio'r gwaith sydd heb ei gyflawni, yn ystod 2010-11 mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi manteisio ar adnoddau sydd ar gael gan y Comisiwn Archwilio ar gyfraddau is ac wedi sicrhau nifer sylweddol o staff perfformiad y Comisiwn Archwilio ar secondiad.

48. Roedd nifer y diwrnodau a drosglwyddwyd i brosiect y Mesur Llywodraeth Leol o'r rhestr o 74 o brosiectau oedd yn weddill yn amrywio'n fawr ar draws y cynghorau, ac er nad oedd gan saith o'r 22 o gynghorau unrhyw brosiectau'n weddill, roedd gan un corff a archwiliwyd (yn y De) brosiectau gwerth mwy na 100 diwrnod wedi'u trosglwyddo. Yn y cylch nesaf o drafodaethau ar y cynllun blynyddol a ffioedd sefydlog, bydd unrhyw ddiwrnodau a drosglwyddwyd nad ydynt wedi'u defnyddio wrth gyflawni gwaith y Mesur Llywodraeth Leol yn cael eu trafod gyda chyrff a archwiliwyd. Yna, bydd diwrnodau prosiectau llywodraeth leol heb eu defnyddio naill ai'n cael eu cario ymlaen i waith asesiad corfforaethol y flwyddyn nesaf neu eu gosod yn erbyn ffi'r flwyddyn.

49. Darparodd y tîm archwilio perfformiad nifer o negeseuon e-bost i ddangos lle mae cyrff a archwiliwyd wedi cael gwybod am y prosiectau sydd ar ôl i'w cyflawni. Fodd bynnag, nid oes yna weithdrefn ffurfiol ar gyfer cofnodi'r ffaith bod y prosiectau sy'n weddill wedi eu cwblhau neu, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cofnodi'r newidiadau i brosiectau ar gyfer prosiectau o 2005-06 ymlaen.

**Mae ffioedd a anfonebir i gyrff a archwilir am waith heb ei gyflawni eto yn cael eu nodi'n gywir fel incwm gohiriedig yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn cytuno gyda chasgliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mai dim ond ar ôl i'r gwaith gael ei gyflawni y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried ffioedd archwilio fel incwm yn unig. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru £4.7 miliwn o incwm gohiriedig yng nghyfrifon 2009-10**

50. Unwaith i Swyddfa Archwilio Cymru gytuno ar y rhaglen o waith perfformiad lleol ac ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod gyda chorff a archwilir, yn y strategaeth neu'r cynllun archwilio blynyddol, bydd y gost a ragwelir ar gyfer y gwaith hwnnw'n gyfartal â'r ffi archwilio. Mae'r ffi'n sefydlog. Mae hyn yn golygu os bydd costau Swyddfa Archwilio Cymru yn uwch na'r hyn a ragwelir, am resymau o fewn ei reolaeth, na ddylai drosglwyddo'r costau hyn i'r corff a archwiliwyd. Hefyd, os bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu sicrhau mwy o effeithlonrwydd wrth gyflawni gwaith, bydd yn cadw'r arbedion effeithlonrwydd hynny. Mae'r system ffioedd sefydlog yn golygu y gall y corff a archwilir gyllidebu gyda sicrwydd ynglŷn â'i ffi archwilio. Yr unig eithriad yw os bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gorfod talu unrhyw gostau ychwanegol am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth y gellir eu priodoli i gorff a archwilir e.e. os bydd y corff yn darparu gwybodaeth hwyr neu o ansawdd gwael. Yn yr achos hwn, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio adennill unrhyw gostau ychwanegol gan y corff hwnnw.

51. Mae'r trefniadau bilio a ddefnyddiwyd mewn perthynas ag archwiliadau'r GIG a llywodraeth leol yr un fath â'r rheini a etifeddodd Swyddfa Archwilio Cymru gan y Comisiwn Archwilio yn 2005. Cytunir ar ffi sefydlog gyda'r corff a archwilir, a chodir anfonebau ar gyfer 12 o randaliadau misol cyfartal, sy'n fwy darbodus ac effeithiol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a'i chyrff a archwilir na chodi anfonebau yn seiliedig ar amser misol.


52. Mae'n bwysig deall bod Swyddfa Archwilio Cymru yn llunio cyfrifon ar sail croniadau, yn hytrach nag arian parod. Mae'r gwaith o greu anfoneb yn sbarduno'r gwaith o gofnodi incwm/incwm gohiriedig, nid yr arian parod a dderbynnir. Felly, gall balans yr incwm gohiriedig ar 31 Mawrth gynnwys 'arian parod yn y banc' (ffioedd wedi'u derbyn o anfonebau) a 'dyledwyr' (anfonebau ffioedd wedi'u hanfon ond Swyddfa Archwilio Cymru heb dderbyn yr arian eto).

53. Nododd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y canlynol:

*'…Yr arfer a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y mwyafrif o'i gwaith a gyllidwyd gan ffioedd yw cytuno ar ffi sefydlog blynyddol gyda phob corff a archwilir a bilio rhandaliadau rheolaidd waeth pryd y cyflawnir y gwaith. Ar y cyfan, mae llywodraeth leol a chyrff iechyd yn talu 12 rhandaliad misol cyfwerth, ac mae cyrff llywodraeth ganolog yn talu pedwar rhandaliad chwarterol cyfwerth. Nid yw hyn yn ymarfer anarferol; mae'n gyffredin ar draws diwydiannau i'r cyflenwr dderbyn taliadau ymlaen llaw, er mwyn gallu ariannu'r gwasanaethau.*

*O ystyried nad oes cymaint o strwythur i'r patrwm gwasanaeth a ddarperir, mae hyn yn golygu y bydd gwahaniaethau anochel o ran pryd y derbynnir yr arian parod a phryd y bydd y gwaith yn cael ei wneud. Pan fo arian yn cael ei dderbyn cyn i'r gwaith gael ei wneud, mae'r arian yn cael ei ohirio yn y cyfrifon; mae hyn yn golygu nad yw'r incwm yn cael ei gydnabod tan i'r gwaith gael ei wneud. Gohiriwyd £4.7 miliwn yng nghyfrifon 2009-10 o gymharu â £20.2 miliwn o incwm a gydnabuwyd. Nid ydym wedi cyflawni unrhyw waith archwilio ar y ffigurau hyn gan fod hyn y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, ond ar sail ein dealltwriaeth o'r amserlen filio, ymddengys bod cyfran resymol o arian wedi'i gohirio'n hytrach na'i chydnabod. Mae Ffigur 2 yn darparu enghraifft syml o oblygiadau cyfrifyddu hyn.'*

**Ffigur 2: Goblygiadau Cyfrifo trefn filio Swyddfa Archwilio Cymru**




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol*

54. Ar ddiwedd bob chwarter, mae'r Pennaeth Cyllid yn gofyn i bob rheolwr prosiect gadarnhau bod swm yr incwm a gydnabyddir ar gyfer pob un o'u prosiectau yn adlewyrchiad cywir o'r union gyfnod o gwblhau'r gwaith. Mae rheolwyr prosiect yn ymateb i'r Pennaeth Cyllid gan gadarnhau neu ddiwygio'r cyfnod cwblhau ar sail eu gwybodaeth am gwblhau'r prosiect. Mae'r Pennaeth Cyllid yn adolygu'r diwygiadau hyn ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau bod y swm priodol o incwm yn cael ei gydnabod yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyfrifon hynny'n cael eu harchwilio'n flynyddol gan archwilwyr allanol Swyddfa Archwilio Cymru, sef cwmni o gyfrifyddion a benodir yn annibynnol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

55. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn y rownd nesaf o drafodaethau am y cynllun blynyddol a'r ffi sefydlog bydd unrhyw waith a drefnwyd nad yw wedi'i gyflawni yn cael ei drafod â chyrff archwilir. Bydd gwaith llywodraeth leol naill ai'n cael ei gyflwyno'n raddol yn ystod gwaith asesu corfforaethol y flwyddyn nesaf, neu'n cael ei osod yn erbyn ffi y flwyddyn nesaf fel sy'n briodol.

56. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ei anfonebau ffioedd mewn 12 rhandaliad misol cyfartal. Gan fod cylch busnes y 'flwyddyn archwilio' yn rhedeg o fis Tachwedd i fis Hydref, nid yw'r broses anfonebu yn gyson â blwyddyn ariannol y sector cyhoeddus o 1 Ebrill i 31 Mawrth, na phatrwm cyflawni'r prosiect perfformiad lle gall prosiectau bara blynyddoedd. Felly, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 31 Mawrth bydd Swyddfa Archwilio Cymru wedi codi anfonebau am 5/12 o'r ffi archwilio flynyddol y cytunwyd arni. Yn ei chyfrifon, mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru nodi faint o'r gwaith archwilio sydd wedi'i wneud erbyn y dyddiad hwnnw, ac ond cydnabod y ffioedd sy'n ymwneud â'r gwaith hwnnw fel incwm.

57. Nid yw'r gydnabyddiaeth o incwm yng nghyfrifon blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei sbarduno gam systemau cofnodi amser. Yn hytrach, mae'n cael ei sbarduno gan wybodaeth chwarterol a ddarperir i'r tîm cyllid canolog gan bob rheolwr prosiect. Mae'r tîm cyllid yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud y cofnodion cyfrifyddu priodol yng nghyfrifon blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Yn unol â safonau cyfrifyddu, mae cyfrifon blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn datgan cyfanswm yr incwm ffioedd a enillwyd yn y flwyddyn ariannol am y gwaith a wnaed, ynghyd â'r fantolen 'gwaith ar ei hanner' a'r fantolen 'incwm gohiriedig' ar 31 Mawrth. Lle mae incwm gohiriedig wedi cynhyrchu derbyniadau ariannol erbyn dyddiad y fantolen, cyfrifir amdano hefyd yn y ffigurau adroddedig am arian parod yn y banc.

58. Y ffigurau incwm gohiriedig yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y tair blynedd diwethaf:

- £4.702 miliwn (2009-10)
- £3.368 miliwn (2008-09)
- £3.071 miliwn (2007-08)

59. Yn gyffredin â busnesau'n gyffredinol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio i amserlen waith erioed er mwyn sicrhau nad oes anghysondeb yn ei lwyth gwaith fel nad yw staff yn cael eu defnyddio'n llawn. Rhoddodd gwaith ad-drefnu'r cyrff iechyd a chyfrifon canol blwyddyn ychwanegol bwysau ychwanegol ar adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru gan arwain at incwm gohiriedig cynyddol, h.y. oediadau i brosiectau, ar gyfer 2009-10.

60. Mewn perthynas â'r cyhuddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr erthygl bapur newydd, mae'n wir dweud bod yr incwm gohiriedig yn cael ei gadw yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru - a hynny'n hollol gywir fel incwm gohiriedig.
Mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r incwm gohiriedig o archwiliadau llywodraeth leol yn cael ei glirio drwy gynnal asesiad corfforaethol/asesiad perfformiad mewn awdurdodau lleol. Mae'r cyfanswm incwm gohiriedig o £4.702 miliwn yn 2009-10 tua 25 y cant o incwm ffioedd blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac yn gyfystyr â thua tri mis o waith.

## Argymhellion

61. Ar sail y wybodaeth a archwiliwyd ac yn amodol ar unrhyw wybodaeth bellach a fydd yn codi: yng ngoleuni cais i 'brofi'r gwrthwyneb', mae ein gwaith wedi rhoi sicrwydd rhesymol na ellir profi'r cyhuddiadau dienw a wnaed yn erbyn Swyddfa Archwilio Cymru.

62. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi adolygu methodoleg yr Archwiliad Mewnol ar gyfer yr adolygiad hwn ac wedi datgan ei fod yn gadarn. Hyd yma, mae'r archwiliad mewnol wedi costio tua £30,000. Mewn trafodaethau pellach â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, amcangyfrifodd eu hadolygwyr y byddai angen adnoddau o 150 diwrnod i gysoni ffioedd unigol yn llawn cymaint â phosibl ar gyfer yr holl brosiectau a drefnwyd o gymharu â'r prosiectau a gyflawnwyd.

63. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai adolygiad o'r fath ond yn darparu sicrwydd pellach, ac nid sicrwydd llwyr. Byddai ein gwaith yn cadarnhau amcangyfrif y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o 150 diwrnod; byddai'r lefel adolygu honno'n costio tua £100,000. Dylai'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu a ellir cyfiawnhau gwariant o'r fath trwy ystyried y budd i'r cyhoedd a'r effaith ar y gwaith archwilio a wnaed cyn hyn.

| | |
|---|---|
| A1 | Er mwyn sicrhau bod newidiadau i gynlluniau archwilio yn fwy eglur, mae angen adrodd yn glir yn y cynllun/strategaeth flynyddol ddilynol bod pob prosiect sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun/strategaeth/llythyr blynyddol wedi'i gwblhau, ei amnewid, ei ddwyn ymlaen neu ei diddymu. |
| A2 | Dylai partneriaid perfformio adrodd ar gysoniad llawn y prosiectau yr holodd yr Archwiliad Mewnol y Pwyllgor Gwaith amdanynt. |
| A3 | Yn unol â chanlyniad A2 dylai'r Pwyllgor Gwaith ad-dalu neu gytuno i amnewid unrhyw brosiectau sydd heb eu cysoni gyda'r corff archwiliedig yr effeithir arno. |
| A4 | Dylid diwygio'r canllawiau corfforaethol i ddarparu cyfarwyddiadau cliriach i staff ar y trefniadau angenrheidiol ar gyfer sicrhau llwybr rheoli o ansawdd cyson yn cynnwys y broses ar gyfer awdurdodi, cofnodi ac adrodd am newidiadau i brosiectau. |
| A5 | Dylid diwygio'r cyllidebau yn Tenrox i roi adlewyrchiad cywir o'r holl waith a amnewidwyd fel bod gwybodaeth reoli ar gael yn haws ac yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Gwaith o leiaf bob blwyddyn. |

Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu

| Argymhelliad | | Cyfrifoldeb | Cytunwyd | Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Er mwyn sicrhau bod newidiadau i gynlluniau archwilio yn fwy eglur, mae angen adrodd yn glir yn y cynllun/strategaeth flynyddol ddilynol bod pob prosiect sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun/strategaeth/llythyr blynyddol wedi'i gwblhau, ei amnewid, ei ddwyn ymlaen neu ei ddiddymu. | Pwyllgor Gwaith | D | Mae'r argymhelliad yn berthnasol i waith perfformiad lleol awdurdodau iechyd a'r heddlu (gyda'r holl waith perfformiad lleol arall yn cael ei gynnwys yn yr Asesiadau Gwella blynyddol a wneir o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009). Bydd y templedi ar gyfer cynllun/strategaeth flynyddol ffrydiau gwaith iechyd a'r heddlu yn cael eu diwygio i sicrhau'r cysondeb a argymhellir yn llwybr rheoli newidiadau i gynlluniau, ac yn cael eu cwblhau yn y chwarter nesaf. | Ion 2011 |
| A2 | Dylai partneriaid perfformio adrodd ar gysoniad llawn y prosiectau yr holodd yr Archwiliad Mewnol y Pwyllgor Gwaith amdanynt. | Partneriaid perfformio | D | Bydd y partneriaid perfformio'n parhau i ymchwilio i unrhyw fylchau yn eu gwaith cysoni 100 y cant ar gynlluniau a drefnwyd o gymharu â chynlluniau a gyflawnwyd ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar gasgliadau'r gwaith hwnnw erbyn diwedd Chwefror 2011. | Chwe 2011 |
| A3 | Dylai'r Pwyllgor Gwaith ad-dalu neu gytuno i amnewid unrhyw brosiectau sydd heb eu cysoni gyda'r corff archwiliedig yr effeithir arno. | Pwyllgor Gwaith | D | Bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad yn dilyn casgliadau ac adroddiad y gwaith cysoni 100 y cant o dan argymhelliad 2 uchod. | Maw 2011 |

| Argymhelliad | | Cyfrifoldeb | Cytunwyd | Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Dylid diwygio Hysbysiad Corfforaethol 16 i ddarparu cyfarwyddiadau cliriach i staff ar y trefniadau angenrheidiol ar gyfer sicrhau llwybr rheoli o ansawdd cyson yn cynnwys y broses ar gyfer awdurdodi, cofnodi ac adrodd am newidiadau i brosiectau. | Pwyllgor Gwaith | D | Y Tîm Cydymffurfio i gynnig diwygiadau i Hysbysiad Corfforaethol 16 a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith erbyn diwedd Chwefror 2011. | Chwe 2011 |
| A5 | Dylid diwygio'r cyllidebau yn Tenrox i roi adlewyrchiad cywir o'r holl waith a amnewidwyd fel bod gwybodaeth reoli ar gael yn haws ac yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Gwaith o leiaf bob blwyddyn. | Pwyllgor Gwaith | D | Y Tîm Cyllid, mewn ymgynghoriad â chydweithwyr perfformiad, i ddiwygio'r ffordd mae codau prosiectau ar gyfer prosiectau perfformiad iechyd a heddlu lleol yn cael eu sefydlu ar Tenrox. Dylai'r trefniadau newydd ddod i rym ar gyfer y cylch archwilio gwaith perfformiad nesaf (h.y. ar gyfer gwaith newydd i'w wneud o 2011 ymlaen). | Ion 2011 |

Atodiad 2

## Hysbysiad Corfforaethol 16, ymdrin ag amrywiadau i raglenni gwaith

Mae'r hysbysiad corfforaethol hwn yn nodi sut dylai staff ymdrin ag amrywiadau i raglenni gwaith archwilio neu arolygu cyrff cleientiaid.

**Amrywiadau rhaglen waith**

Yn ystod y flwyddyn gallai nifer o wahanol sefyllfaoedd godi mewn perthynas ag amrywiadau i'r gwaith a drefnwyd a'r hyn a wneir gan gorff unigol mewn gwirionedd:

- os yw'r corff yn gofyn am waith ychwanegol sy'n briodol i'r archwilydd a benodir/Archwilydd Cyffredinol (archwiliad/arolygiad gwerth am arian) ei gyflawni, yna dylai'r archwilydd/rheolwr cysylltiadau gynnwys ceisiadau o'r fath yn y rhaglen waith a gofyn am ffioedd ychwanegol gan y corff;
- os nad yw'r archwilydd/rheolwr cysylltiadau yn darparu allbwn y cytunir arno, yna gall y partner ymgysylltu/rheolwr cysylltiadau gytuno gyda'r corff:
  - ar yr adnoddau a fyddai wedi'u defnyddio (a'r ffi gysylltiedig) i'w hailddefnyddio mewn rhan arall o'r cynllun archwilio/rheoleiddio lle byddai'r corff wedi derbyn ffioedd ychwanegol fel arall oherwydd ei fethiant i gyflawni;
  - i wneud darn o waith arall sy'n seiliedig ar risg yn ei le;
  - gohirio'r gwaith/ffi tan y flwyddyn nesaf;
  - ad-dalu/codi biliau llai ar y corff; neu
  - gyfuniad o'r uchod.
- os yw'r archwilydd/rheolwr cysylltiadau wedi mynd i gostau ychwanegol wrth gynhyrchu'r allbynnau y cytunwyd arnynt yn sgil methiannau gan y corff, i gyflawni gwaith, yna gall yr archwilydd/rheolwr cysylltiadau ofyn am ffioedd ychwanegol yn gyfreithlon gan y corff; ac
- os nad yw gwaith, a gyllidir gan grant WPI, yn cael ei gyflawni yna cytunir ar drefniadau amgen neu drefniadau priodol eraill gyda'r Cynulliad fel rhan o broses cyllid grant WPI.

Mae'n hollbwysig bod yr archwilydd/rheolwr cysylltiadau yn rhoi gwybod i'r corff beth sy'n digwydd drwy ddarparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar waith a drefnwyd, er mwyn i'r corff gymryd rhan iawn yn y trafodaethau ar waith a ffioedd. Mae hyn yn ogystal â'r gofyniad i grynhoi'r gwaith a wneir yn ystod y flwyddyn, a'r ffi a godir, yng Nghynllun Blynyddol/Llythyr Archwilio Blynyddol y Rheolwr Cysylltiadau.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 20320 500
Ffacs: 029 20320 600
Ffôn testun: 029 20320 660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk